



Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor

18 Ebrill 2016

Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 18 Ebrill 2016 yn Neuadd Pentref Y Groeslon

Yn bresennol- 7 aelod

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones, Y Fron; Alun Wyn Jones, Y Groeslon; Robert Jones, Y Groeslon; Robert Isaac Jones, Llandwrog; Alan Patterson, Carmel; Bryn Williams, Carmel; Gerwyn Owen, Y Groeslon a'r Clerc.

16-04-01 **1 Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gadeirydd y Cyngor, Cyng. Robert Jones.

16-04-02 **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr aelodau canlynol -

Cynghorwyr Dyfed Williams, Llandwrog; David Mark Lewis, Y Fron; Emyr Peris Hughes, Y Groeslon; Gethin Thomas, Llandwrog; Robert Silyn Jones, Y Groeslon; Hywel J Owen, Y Groeslon.

Trafodwyd sedd wag Ward Carmel. Hysbys ar gyfer etholiad wedi ei arddangos yn y neuadd.

Roedd y Clerc hefo un enw ar gyfer cyfethol.

Penderfynwyd i aelodau Ward Carmel ystyried enwau i gyfethol erbyn y cyfarfod nesaf

16-04-03 **3 Datgan Buddiant**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

16-04-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (21 Mawrth 2016)**

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Cymdeithas y Porwyr

16-04-05 **Giat ger y Mynydd**

Adroddwyd gan yr Is-gadeirydd ar y canlynol

- fod giât ar gael gan y porwyr - wedi ei storio ers cynllun ffensio. Angen addasu'r giât fel ei fod yn agor i farchogwyr.
- Pris o £280 wedi ei dderbyn gan yr Is-gadeirydd gan ymgymwrwr
- Cyfrifoldeb y Porwyr fydd y giat

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth gan ddisgwyl i'r Gymdeithas gysylltu gyda diweddariad ar y mater.

16-04-06 **Cyd-weithio Prosiect Rheoli Comin**

Adroddwyd gan y Clerc fod Cyngorwyr Gwyn Owen Jones ac Alun Wyn Jones wedi mynychu cyfarfod gyda Swyddog o PONT a cynrychiolwyr o'r Gymdeithas ar gyfer awgrymiadau a yr adnodd gellir ei gynnwys yn y cais grant.

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan GOJ

- wedi mynychu'r cyfarfod er nad oed dim mandad gan y ddau i gynrychioli'r Cyngor.
- wedi mynd yno i wrando yn bennaf
- rhaid i'r cais ddangos elfen o gydweithio
- angen tynnu partneriaid i'r cais /drafodaeth i ddangos y cydweithio
- gofyn i Cyngor hwn fod yn gefnogol i'r cais
- gofyn am aelodau i fod yn rhan o'r Pwyllgor Llywio
- Ysgol Rhosgadfan yn cymryd rhan trwy gynllunio ar gyfer byrddau, llwybrau addysgol a ati
- dim oblygiadau adnoddau i'r Cyngor
- awgrymu fod y Gymdeithas yn gwahodd grwpiau fel Grwp y Fron

Cyng Alun Wyn Jones

Elfen gymunedol yma trwy warchod tai sydd mewn perygl o'r eithin sydd wedi eu gordyfu

Cyng Bryn Williams

Angen meinciau ar y llwybrau yn y mynydd

Penderfynwyd ar y canlynol

- Cefnogi'r gymdeithas i fod yn rhan o'r broses gan fod yna fuddiant gymdeithasol**
- Anfon llythyr i'r Gymdeithas yn datgan cefnogaeth y Cyngor hwn i'r cais a'r gwaith dan sylw.**

16-04-07 **Tan y Foel Mawr**

Cafwyd adroddiad gan yr Is-gadeirydd ar y sefyllfa. Dywedwyd eto wrth yr aelodau pa mor beryglus ydi'r ffoes i gerddwyr ac fod angen i'r Cyngor cefnogi'r Gymdeithas i gael atebion.

Penderfynwyd ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddatgan pryderon y Cyngor gan ofyn am gadarnhad o beth y bwriedir ei wneud i wneud yn iawn y difrod

16-04-08 **Cynllun Gridiau**

Cyng. Gwyn Owen Jones – dim byd newydd yn y wybodaeth ac awgrymu derbyn a nod'r wybodaeth yn unig.ebion.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

16-04-09 **Dinas Dinlle - Morglawdd**

Cafwyd gadarnhad gan y Clerc fod cyfarfod wedi ei drefnu Nos Fercher 20 Ebrill 2016 yn Bwyrt Lleu am 6.30 yr hwyr gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadeirydd Grwp Adfywio Dinas Dinlle a Cynghorsydd Sir ac aelodau y Cyngor hwn.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac i Gadeirydd y cyngor, Robert Jones i gadeirio'r cyfarfod.

16-04-10 **Her Gwynedd ac Effaith ar Lonydd Cefn Gwlad**

Derbyniwyd yr ymateb ganlynol gan Meirion Williams, A Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd-

"Yn anffodus, mae'r £850,000 yn cael ei dynnu oddi ar y gyllideb sydd wedi'i ddyrannu yn benodol ar gyfer ail-wynebu. O ganlyniad, nid yw'n debyg y byddwn mewn sefyllfa i gario allan llawer o weithiau trwsio parhaol yn y dyfodol agos. Wrth gwrs, fydd rhywfaint o arian dal ar gael ar gyfer gweithiau fel hyn. Fodd bynnag,

fyddwn yn gorfod blaenoriaethu unrhyw waith yn ofalus iawn. O ganlyniad, mae'n anochel y bydd cyflwr ffyrdd cefn gwlad yn dirywio. Fyddwn yn parhau gyda'n harolygon diogelwch rheolaidd ac ymgymryd â gweithiau dros dro nes y bydd arian ar gael yn y dyfodol (gan obeithio na fyddent wedi dirywio gormod erbyn hynny!).

Ynghylch y gang cymunedol, mae'n drueni fod y gwasanaeth yma'n dod i ben. Er nad oedd y gang yn cario allan gwaith trwsio ar ein ffyrdd cefn gwlad, roeddent yn ymgymryd â gweithiau trwsio bach, seidio, agor ffosydd, tacluso ayyb ar ein ffyrdd trefol. Roedd eu gwaith yn cael ei werthfawrogi gan drigolion ac yn helpu i wella delwedd trefi a phentrefi. O ganlyniad, fe fydd colled fawr ar eu hol."

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth

16-04-11 **Biniau Brown, Carmel**

Adroddwyd fod y Cyngor Gwynedd wedi codi archeb i gyflawni'r gwaith. Dywedodd Cyng. Alan Patterson nad oedd y bin wedi ei wagio.

Penderfynwyd atgoffa Cyngor Gwynedd o'r sefyllfa.

16-04-12 **Arwydd Tyn Llôn**

Y mater wedi ei gyfeirio at yr adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd.

Penderfynwyd derbyn fod y gwyn wedi ei anfon i Gyngor Gwynedd.

16-04-13 **Bws yn Parcio o flaen Fynwent Carmel**

Y mater wedi ei gyfeirio at berchennog y bws. Nodwyd nad oes bws wedi parcio ar y safle ers rhai wythnosau

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a monitro'r sefyllfa.

16-04-14 **Cyd-weithio Cyngor Llanllyfni a Llanwnda**

Trafodwyd gohebiaeth gan Cyng. O P Huws ynglyn a chyd-weithio rhwng Cyngorau Cymuned

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac ymddiried yn Cyng. O P Huws i gysylltu gyda threfniadau'r cyfarfod nesaf.

16-04-15 **7 Derbyn Cofnodion y Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd 15 Mawrth 2016**

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

8 Materion yn codi o'r cofnodion -

16-04-16 **9 Damwain Bryn'rodyn -**

Adroddwyd fod Crawfords y Loss Adjustor a benodwyd gan NFU wedi ysgrifennu gyda'r cynnig canlynol-
Cynnig setlo am £7,890

ar sail-
£3,590 pris Gelli am y wal a'r ffens
£4,300 pris Arwyn Davies ar y gwaith cerrig beddi

Adroddwyd gan y Clerc fod Gelli wedi gwrthod cyflawni'r gwaith ar y wal a'r ffens heb gael cynnig y gwaith cerrig beddi

Sylwadau Aelodau-

Pawb o'r farn y dylid gwrthod y cynnig ar y sail ei fod yn afresymol rhoi cynnig gerbron sydd yn rhannu'r ddau amcan bris hynny yw yn cynnig pris rhataf Gelli am y wal a phris rhataf AD ar y cerrig.

Penderfynwyd gwrthod y cynnig gan ofyn i Crawfords ystyried sylwadau'r aelodau.

16-04-17 **10 Caeau Pêl Droed Carmel a'r Fron**

Adroddwyd nad oes unrhyw ddatblygiadau ers y cyfarfod diwethaf parthed y dogfennau TP1.

Adroddwyd gan y Clerc fod pris wedi ei dderbyn gan Meirion Davies, Plas Dolydd i osod giât i Gae Carmel. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn y pris ac wedi cadarnhau y bydd yr arian yn cyrraedd y Cyngor hwn ar ôl derbyn anfoneb.

Adroddwyd gan y Clerc fod archeb wedi ei roi i Selwyn Jones i dorri gwair y ddau gae am £50.00 y toriad, naw toriad y flwyddyn

Penderfynwyd ar y canlynol derbyn y wybodaeth.

16-04-18 **11 Cylch Meithrin Bontnewydd**

Trafodwyd gohebiaeth Cylch Meithrin Bontnewydd fel y nodwyd ar y Rhaglen.

Barn yr aelodau oedd bodlon cefnogi ond oedi gan fod y cais yn datgan mai wynebu trafferthion ariannol i'r dyfodol y mae'r Cylch ac felly ystyried y cais yn Chwefror.

Penderfynwyd gohirio'r cyfraniad ac ystyried y cais yn Chwefror 2017

16-04-19 **12 Alun Ffred Jones AC - Ymddeoliad**

Trafodwyd gohebiaeth gan Alun Ffred Jones fel y nodwyd ar y Rhaglen.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth.

16-04-20 **13 Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) - Adeiladu Cartrefi Newydd Y Groeslon**

Trafodwyd gohebiaeth CCG fal a nodwyd ar y Rhaglen.

Adroddwyd gan Cyng. Gerwyn Owen ei fod wedi mynychu'r diwrnod agored. Dywed CCG fod ganddynt dystiolaeth fod angen tai dwy ystafell wely yn Y Groeslon. Y bwriad yw adeiladu chwe annedd i rai i'w gosod a rhai i'w gwerthu.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth

16-04-21 **14 Materion a Godwyd gan Aelod**

Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon

Codwyd pryderon gan AWJ ynglyn a goryrru trwy pentref i Groeslon a Carmel.

Barn yr aelod yw tydi mesurau fel tawelyddion a mesurau tebyg ddim yn gweithio.

Sylwadau Aelodau-

Cyng. Alan Patterson

Adroddwyd gan AP fod cerbydau yn defnyddio'r strydoedd, yn arbennig gyda'r nos, fel trac rasio, yn arbennig rhwng Carmel /Fron ac i Rhosgadfan.

Cyng. Gerwyn Owen

Yn wyrthiol, yn arbennig ger Cae Sarn, Y Groeslon, lle gwelir plant yn chwarae ger y lon, nid oes damwain wedi digwydd, ond mae aelod yn bryderus iawn o'r sefyllfa gan fod cerbydau yn mynd ar gyflymder i lawr o Carmel i'r Groeslon.

Penderfynwyd cysylltu gyda'r adran berthnasol y Cyngor Sir

16-04-21 **14 Ceisiadau Cynllunio - Ceisiadau Ebrill 2016**

16-04-22 **C16/0205/17/LL**

Bwthyn Tryfan, Rhos Isaf

Cais ar gyfer codi estyniad ochr ac ymestyn cwrtil

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

16-04-23 **C16/0301/17/LL**

Tŷ Croes, Carmel

Cais i ddymchwel adeilad allanol presennol a chodi siale pren yn ei le ar gyfer defnydd atodol i'r prif annedd.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

16-04-24 **C16/0271/17/LL**

Hen Bost, Llandwrog LL54 5SY

Newid defnydd ac estynnu adeilad i greu annedd ynghyd a chodi modurdy newydd.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

16-04-25 **C16/0302/17/LL**

Tŷ Newydd, Bethesda Bach LL54 5SF

Cais i godi lefel crib y bondo a chodi estyniad deulawr ar gefn yr eiddo.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

Materion Ariannol

16-04-26 **15 Derbyniadau i 31 Mawrth 2016**

| Manylion | Cyfanswm |
|----------------|----------|
| Ffioedd Claddu | £630.00 |

16-04-27 **16 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor -**

| Manylion | Swm heb TAW | Cyfanswm y Taliad | Rhif Siec |
|-----------------------------------------------------------|-------------|-------------------|--------------|
| Cyflog y Clerc - Ebrill 2016 | £420.13 | £420.13 | Uniongyrchol |
| HMRC - Treth Incwm Ebrill 2016 | £111.20 | £111.20 | Uniongyrchol |
| Lwfans Clerc – Ebrill 2016 | £30.00 | £30.00 | Uniongyrchol |
| Meirion Davies - Ffens Dros Dro Bryn'rodyn (Rhagfyr 2015) | £100.00 | £120.00 | |
| Tir y Goron - Prydles Llecyn Parcio Mynwent Carmel | £100.00 | £100.00 | Uniongyrchol |
| PWLB - Ad-daliad Benthyciad Tir Caety | £516.88 | £516.88 | Uniongyrchol |
| PWLB - Ad-daliad Benthyciad Llwybrau Fynwentydd | £2,212.32 | £2,212.32 | Uniongyrchol |
| PWLB - Ad-daliad Benthyciad Fynwent Newydd Bryn'rodyn | £2,984.97 | £2,984.97 | Uniongyrchol |

16-04-28 **17 Materion yn Codi gan Aelodau**

Materion yn Codi gan Aelodau

Cyng. Alan Patterson

16-04-29 **Cerbyd wedi ei adael gyferbyn ar Hen Gop**

Adroddwyd fod cerbyd wedi ei adael ers peth amser gyferbyn a'r Hen Gop..

Cyng. Bryn Williams

16-04-30 **Ciwt Foty, Carmel -**

Cwynion oherwydd bod blerwch ar y gornel. Deunydd plastig wedi ei adael gan ffermwr a cherbydau ar y comin.

Cyng. Robert Isaac Jones

16-03-31 **Groeslon Ffrwd.**

Cwyn fod arwydd 'antiques' ar y gyffordd yn beryglus i yrwyr sydd yn dod o gyfeiriad Bwlan.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Cyng. Robert Jones, Cadeirydd y Cyngor

Dyddiad -